

Adroddiad Addysg

- 1. Lle Addysg Grefyddol yng nghwricwlwm y Dyniaethau.** Fel rhan o gynllun diwygio'r cwricwlwm yn Nghymru, nododd yr Athro Donaldson yn ei adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' (2015) y dylid lleoli Addysg Grefyddol yn y Dyniaethau (sydd hefyd yn cynnwys Hanes, Daearyddiaeth ac Astudiaethau Busnes a Chymdeithasol). Er mwyn datblygu'r cwricwlwm hwn a sicrhau dyfodol sicr a llwyddiannus ar gyfer Addysg Grefyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal ym mis Medi nifer o ymgynghoriadau Addysg Grefyddol ledled Cymru. Fel aelod o CYSAG Wrecsam, cefais fy ngwahodd i fod yn rhan o gynrychiolaeth y CYSAG mewn cyfarfod rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr CYSAGau sirol Gogledd Cymru yn Swyddfa Cyffordd Llandudno Llywodraeth Cymru ar 18 Medi. Yno cawsom y cyfle i ymateb i'r fersiwn ddrafft Haf 2018 'Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau'. Mae'n cynnwys canllawiau addysgol cyffredinol ar gyfer pynciau y Dyniaethau a braf oedd nodi fod lle dipyn mwy amlwg i Addysg Grefyddol yn y ddogfen hon o'i chymharu â fersiynau blaenorol o'r ddogfen. Atodaf fy sylwadau adborth er gwybodaeth.
- 2. Ym mis Mehefin cyhoeddodd Estyn ei adroddiad: Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.** Gyda'r ffocws ar sgiliau yn rheoli'r cwricwlwm yn y blynyddoedd diweddar, yn anamal iawn y ceir adroddiad gan Estyn yn canolbwyntio ar bwnc yn benodol ond dyma un ar Addysg Grefyddol a da hynny. Mae'n adroddiad 39 tudalen ac yn argymhell, ymhlith pwyntiau eraill, fod plant mwy abl yn cael eu herio'n fwy ac yn gofyn am well pontio yn bynciol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Rwyf hefyd am gyferio at yr argymhelliad olaf sef Argymhelliad 8 yr adroddiad sy'n nodi'n strategol y dylai Llywodraeth Cymru 'Weithio gydag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a CYSAGau i sicrhau bod eglurder ynglŷn â lle addysg grefyddol o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau'. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn barod i'r argymhelliad hwn ac mae fy sylw blaenorol am gyfarfodydd mis Medi rhwng Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr CYSAGau sirol yn un cam pwysig tuag at ateb yr argymhelliad gan Estyn a sicrhau bod AG yn cael ei iawn le yng nghwricwlwm ein hysgolion yn y dyfodol.
- 3. Materion Eglwysi Rhyddion.** Oherwydd newid dyddiad, nid oedd yn bosib i mi fynychu cyfarfod o'r FCEC (Pwyllgor Addysg Eglwysi Rhyddion - Lloegr). Anfonais serch hynny ddogfennaeth at ysgrifennydd FCEC er mwyn ei diweddarau ar ddatblygiadau yng Nghymru.

**Sylwadau Adborth ar Gyfarfod Ymgynghorol AG rhwng Llywodraeth Cymru/
CYSAGau sirol Gogledd Cymru
Llywodraeth Cymru, Swyddfa Cyffordd Llandudno – Medi 18fed, 2018.**

A ydy Addysg Grefyddol yn hawdd ei hadnabod o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau?

Ydi, mae'r ddogfen MDPHD fersiwn Haf 2018 a gyflwynwyd heddiw yn cryfhau ac yn amlygu'n well le AG o fewn y cwricwlwm Dyniaethau ac yn gam sylweddol ymlaen o'r hyn oedd gennym ym mis Mehefin.

Yn eich barn chi, beth ydy cryfderau a gwendidau'r cynigion dan sylw hyd yn hyn?

- 1 Mae'n gwneud yn amlwg le AG yn y ddogfen a'r cwricwlwm Dyniaethau.*
 - 2 Cryfhau y dimensiwn Cymreig trwy gyfeirio at Gymru yn y ddogfen yn fwy na'r hyn oedd cynt.*
 - 3 Mae'r cynllun yn ei gyfanwaith yn un gwbl dderbyniol, cyffrous a heriol.*
-
- 1 Does dim sôn hyd yma am y thema 'Datblygiad Ysbrydol a Moesol' yn y ddogfen fel e.e. testun trawsgwricwlaidd.*
 - 2 Gan fod nifer yr Ymgynghorwyr Sir AG wedi lleihau'n sylweddol eleni (2 sydd ar ôl o bosib), sut bydd sicrhau bod y cynllun sylweddol hwn yn digwydd mewn ysgolion a'i fod o safon uchel? Hynny ydy, pwy ar lefel sir fydd yn monitro ac yn rhoi arweiniad pynciol priodol i'r athrawon?*
 - 3 Gan fod dros 50% o athrawon AG yng Nghymru heb gymwysterau pynciol priodol mewn AG, sut fydd yr athrawon hyn yn cael y gefnogaeth a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt?*
 - 4 Gan ystyried pwyntiau 2 a 3 uchod, mae angen i Lywodraeth Cymru ariannu cynlluniau hyfforddiant sylweddol er mwyn cyrraedd y nod. Rwy'n amau nad mater yn unig i athrawon AG yw hyn.*

A oes gennych unrhyw gwestiynau i ofyn i Weithgor Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, neu unrhyw awgrymiadau i'w rhoi iddo?

Gweler pwyntiau 2-4 uchod.

Gan fod safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol yn rhan o'r cynllun erbyn hyn, a fydd angen diwygio'r ddeddf ynglŷn ag AG?

A fydd angen diwygio rôl a swyddogaeth CYSAG sir? (Noder y drafodaeth yn Lloegr – Adroddiad CoRe, y fersiwn derfynol newydd ei chyhoeddi)

Mater Hawl i Dynnu'n Ol o wersi AG – onid yw'n amser dileu yr hawl hwn yn yr 21 ganrif? Onid yw AG wedi ennill ei blwy fel pwnc addysgol fel unrhyw bwnc arall yn ein hysgolion erbyn hyn? (Mae hwn eto yn cael ei drafod yn Lloegr y dyddiau hyn)

Beth ydy eich barn ar y berthynas arfaethedig rhwng y meysydd llafur cytûn a Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau?

Byddwn yn disgwyl i faes llafur cytûn gynnwys MDPHD gyda'r ffocws ar AG fel rhan o'i ofynion statudol.

A fyddai'r fframwaith ategol yn ffordd effeithiol o helpu cynadleddau meysydd llafur cytûn i gyflawni eu rôl statudol?

Mae'r fframwaith ategol yn ddogfen bwysig er mwyn rhoi arweiniad a chefnogaeth i athrawon ond bydd angen y personél arbenigol AG i arwain y drafodaeth ac i wneud y dadbacio pynciol er mwyn sicrhau bod athrawon AG yn gallu creu cynlluniau gwaith a gwersi safonol mewn ysgolion unigol.

A oes unrhyw beth y dylwn ni ei ystyried wrth inni ddatblygu'r fframwaith ategol?

Nodwyd uchod mater tynnu'n ôl o wersi AG. Efallai fod yr hyn a nodais yn rhy uchelgeisiol ond mae'n werth ei drafod.

Mae 'Hawl y Dysgwr' yn werth ei gynnwys (o Adroddiad CoRe). A oes modd i hwn fod yn fater statudol i ni yng Nghymru?

Sicrhau bod y dogfennau ac unrhyw adnoddau yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog a hynny ar yr un pryd. Mae athrawon AG wedi syrffedu'n llwyr o dderbyn adnoddau cyfrwng Cymraeg fisoedd neu flynyddoedd weithiau ar ôl y rhai cyfrwng Saesneg (c.f. adnoddau Safon A).

Beth ydy goblygiadau'r cynigion hyn i chi?

Cefnogi ein Hymgyngorydd AG yn Wrecsam!

Vaughan Salisbury

05.10.2018